# Creu'r Sbardun

## Creu Conwy Gaeaf 2023/4

DIWYLLIANT
CONWY
CULTURE

Croeso i newyddlen y gaeaf Creu Conwy, sy'n edrych yn ôl ar ail hanner 2023. Wrth i ni symud i 2024, mae arddangos rôl diwylliant wrth gefnogi cymunedau hapusach a mwy cysylltiedig yn hanfodol. Rydym yn falch iawn ein bod wedi sicrhau cyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i gefnogi ein gwaith dros y 12 mis nesaf.

Elfen allweddol ar gyfer ein prosiect a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yw datblygu model ar gyfer mesur effaith gymdeithasol Diwylliant yn Sir Conwy, a'i rôl o ran lleihau'r angen am fwy o wasanaethau costus.

## Amdani!

Mae Amdani! Conwy bellach wedi recriwtio 50 o wirfoddolwyr ac wedi cefnogi dros 30 o gyfleoedd gwahanol! Mae'r prosiect wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer ei gyfnod recriwtio nesaf yn y Gwanwyn 2024.



Gwirfoddolwyr Amdani!

Mae Bayside Radio, gorsaf radio gymunedol Bae Colwyn, wedi gweithio gydag Amdani! Conwy yn ystod 2023:

***"Mae gweithio gydag Amdani! Conwy wedi bod yn bleser i bob un ohonom yn Bayside Radio." Roedd y broses yn syml iawn "ac mae hyn o fudd mawr i dîm bach fel ni. Rydym wir yn edrych ymlaen at helpu gwirfoddolwyr i ennill sgiliau unigryw a chael hwyl wrth wneud hynny."***

***Simon Wynne – Bayside Radio***



## Creu Conwy Ifanc

Mae Creu Conwy Ifanc wedi parhau i ddarparu gweithgareddau cynhwysol rhad neu am ddim dan arweiniad artist ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc, diolch i gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru.


Gwaith Creu Conwy

Rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2023, bu i 776 o bobl gymryd rhan mewn sesiynau megis Deud O! (geiriau ar lafar), celfyddydau cyfryngau cymysg a Brahms i Fabanod (perfformiadau cerddoriaeth glasurol).

***"Fel teulu o 6 gyda phedwar o blant o dan 7 mlwydd oed, rydw i'n ddiolchgar ein bod wedi gallu bod yn bresennol, oherwydd bod digwyddiadau teuluol fel arfer yn llawer rhy ddrud i ni. Mae un o fy mhlant yn awtistig ac yn ddi-eiriau, a byddech yn rhyfeddu at ei gweld mor hapus a chreadigol yn nosbarthiadau Wendy, mae'n ardderchog."***

## LLENWI

Mae cyfuniad cyffrous o ffurfiau celf digidol a thraddodiadol wedi cael eu dwyn ynghyd drwy ein prosiect LLENWI, sef prosiect a ariennir gan Y Pethau Pwysig, Llywodraeth Cymru. Mae'r artist 3D, Livi Wilmore yn gweithio gyda'r ysgrifennwr arwyddion, Tomos Jones, i ddatblygu arwyddion cyrchfan arloesol ac effeithiol ar draws y sir sy'n dathlu'r iaith Gymraeg, diwyllianta naws am le.

Bydd cysyniadau'n cael eu datblygu drwy weithdai cymunedol dan arweiniad artist a fydd yn cael eu hysbysebu'n fuan. Gwahoddir cyfranogwyr i rannu darluniau, dywediadau a straeon sy'n ystyrlon yn lleol.

## Drysau Agored

Roedd Creu Conwy'n falch iawn o gefnogi menter Drysau Agored Cadw ym mis Medi 2023 drwy gynnig rhaglen lwyddiannus o weithgareddau am ddim ar draws y sir i'r cyhoedd gael eu mwynhau.
Yn ystod y dathliad hwn o dreftadaeth Cymru, cynhaliwyd 14 o weithgareddau mewn llyfrgelloedd a lleoliadau diwylliannol eraill.
Roedd dros 150 o bobl yn bresennol ar gyfer ystod eang o weithgareddau yn amrywio o ddawns y glocsen a digwyddiadau awduron i deithiau oriel!


Drysau Agored


Digwyddiad awdur

## Siwrneiau Creadigol at Les

Mae Katie Ellidge, artist o Gonwy, wedi cael ei phenodi fel Artist Arweiniol Taith - Siwrneiau Creadigol at Les. Mae Taith yn brosiect peilot, a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, sy'n cynnig gweithgareddau grŵp dan arweiniad artist ar gyfer pobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl.

Bydd cyfranogwyr yn cael eu cefnogi a'u grymuso i gyd-gynhyrchu llwybr at les gwell drwy archwilio creadigrwydd yn ystyriol. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Creu Conwy, Mind Conwy a Thîm Lles Meddyliol Conwy.

## Timau Trefi a Chynyddu Gallu Diwylliannol

Mae Timau Trefi dan arweiniad diwylliant wedi cael eu sefydlu ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd yn Abergele, Conwy, Bae Colwyn, Llandudno a Llanrwst. Mae cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cefnogi datblygiad rhai prosiectau cyffrous a fydd yn cael eu cyflawni yn 2024.
Mae prosiectau sydd wedi'u cwblhau hyd yma yn cynnwys; datblygu taflen yn hyrwyddo tref Conwy dros y Nadolig, dangos ffilm Nadoligaidd yn Llyfrgell Llanrwst a phrosiect Lumière ym Mae Colwyn. Gyda chyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, bydd rhaglen cynyddu gallu a rhwydweithio yn cael ei chynnal drwy gydol 2024 i gefnogi sefydliadau diwylliannol annibynnol lleol.

## Archifau ac Amgueddfeydd



Llun o Joe Taylor

Mae staff Archifau Conwy ac Amgueddfeydd wedi bod yn gweithio'n galed i wneud casgliadau treftadaeth CBSC yn hygyrch i gynulleidfaoedd a dehongliadau newydd.

Mae casgliadau rhyfeddol Canolfan Ddiwylliant Conwy yn awr yn rhan o ap newydd a chenedlaethol o'r enw Tŷ Atgofion Cymru gan Amgueddfa Cymru ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.

Bydd y prosiect Ailddychmygu Tŷ'r Congo / y Sefydliad Affricanaidd yn arddangosfa newydd yn Llyfrgell Bae Colwyn a fydd yn adrodd yr hanes o safbwynt y gymuned leol ac ysgolion drwy gyfrwng celf ac animeiddiad. Sefydlwyd Sefydliad Hyfforddiant y Congo neu Dŷ'r Congo, a gafodd ei ail-enwi'n ddiweddarach i'r Sefydliad Affricanaidd, gan y Parchedig Williams Hughes. O 1889 i 1912, bu i dros 100 o fyfyrwyr du o Affrica a'r Caribî ymweld â'r Sefydliad i ddysgu sgiliau megis gwaith print, teilwriaeth, meddygaeth ac astudiaethau crefyddol.

Mae'r gwasanaeth amgueddfeydd hefyd wedi cynnal cyfres o sesiynau treftadaeth LHDTC+ a ariennir gan Amgueddfa Cymru, yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy, gan weithio gydag artistiaid ac ysgrifenwyr yn cynnwys gweithdy 'Llyfrau Braslunio Blodeuog' gyda Katie Ellidge, gweithdy 'Ysgrifennu Creadigol Balch' gyda Norena Shopland a 'Straeon Cwiar Cymru' gyda Mair Jones; gweithdy ysgrifennu creadigol dwyieithog ar gyfer y rhai hynny sydd â diddordeb mewn archwilio hanes LHDTC+ Cymru.

## Gigs y Gaeaf

Gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd a llwyddiant yr ŵyl gyntaf yn 2022, rydym yn edrych ymlaen at ddechrau 2024 gyda Gigs Y Gaeaf Ifanc.
Mae Beacons Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Cherddoriaeth a Ffilm Cymunedol TAPE a Menter Iaith Conwy i ddarparu rhaglen fentora diwydiant cerddoriaeth ar gyfer pobl ifanc a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Bydd Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc o bobl ifanc yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol y diwydiant i gynllunio a hyrwyddo eu cyfres eu hunain o gigs yn y gwanwyn. Penllanw'r prosiect fydd Basecamp - Digwyddiad rhwydweithio'r diwydiant cerddoriaeth a gaiff ei gynllunio a'i gynhyrchu gan bobl ifanc yn cynnwys gweithdai sgiliau a rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol y diwydiant.

***"Yn fy marn i mae rhwydweithio, ym maes y celfyddydau yn benodol, yn bwysig iawn os ydych eisiau bod yn rhan o'r diwydiant hwnnw. Mae'n braf cael clywed gan bobl sydd â'r cysylltiadau hynny".***
A fynychodd ddigwyddiad Basecamp Beacons yn 2022.

Am fwy o wybodaeth ewch i Gigs y Gaeaf Ifanc.Byddwn yn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gweithgareddau eraill Gigs y Gaeaf yn fuan!

## Llyfrgelloedd



Arddangos y cardiau aelodaeth llyfrgell newydd

Yn ystod gwyliau'r haf, bu i dimau y llyfrgelloedd gofrestru 1,180 o blant ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf, cynnal 60 o sesiynau Stori a Thamaid a darllen bron i 100 stori!

Dros y misoedd diwethaf mae ein Llyfrgelloedd Conwy wedi croesawu'r awduron Andrew Hesketh, Rebecca Roberts a Nicola Edwards ar gyfer digwyddiadau. Ym mis Medi, croesawodd Llyfrgell Llanrwst Joseph Coelho, Bardd Plant Waterstones (2022-2024) ar gyfer amser stori arbennig iawn.

Gwelwyd cynnydd ardderchog o ran ymweliadau i'n llyfrgelloedd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn, sy'n adlewyrchiad o waith caled ac arweinyddiaeth pawb yn y tîm.

## Northern Eye



Arddangosfa Northern Eye

Cynhaliwyd Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Northern Eye gan Oriel Colwyn ar draws tref Bae Colwyn ym mis Hydref / Tachwedd.

Roedd yr ŵyl yn canolbwyntio ar Benwythnos Siaradwr Craidd yn Theatr Colwyn a 13 arddangosfa am ddim ar draws y dref.

Bu i 17 artist ffotograffig rannu eu gwaith drwy sgyrsiau siaradwr gwadd a digwyddiadau. Cynhaliwyd noson ffilm ffotograffiaeth am ddim yn sinema Theatr Colwyn. Roedd 4 o artistiaid yno i rannu eu ffilmiau byr gyda chynulleidfa leol. Bu i 120 o bobl fynychu digwyddiad siaradwyr Northern Eye bob diwrnod gyda 13 o bobl yn gwylio ar y we ac roedd 98 o bobl yn bresennol ar gyfer noson Ffilm Ffotograffiaeth Northern Eye.

***"Cynhelir yr arddangosfeydd ar draws Colwyn, yn ogystal ag yn y gofod oriel…Mae hwn yn ddull a ddefnyddir gan nifer o drefi a dinasoedd i roi hwb i'r economi leol. Rydw i'n credu bod Oriel Colwyn yn dangos mor dda y gellir gwneud hyn - fe allai llawer iawn o drefi ddysgu o esiampl yr ŵyl hon ym Mae Colwyn…"***
Stephen Clarke – Uwch Ddarlithydd Celf / Ffotograffiaeth, Prifysgol Caer

Oriel Colwyn

I gael gwybod mwy, neu i archwilio cyfleoedd i gydweithio, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Creu Conwy.

01492 576139 | creu@conwy.gov.uk
www.DiwylliantConwy.com

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

FFYNIANT BRO

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL